



**CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL**



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan LL330AB

Maer: Cyng Chris Jones

Dirprwy Faer: Cyng Laura Fielding

**COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF NOS FERCHER, HYDREF Y 26^{ain}
2022**

Presennol: Cadeirydd: Dirprwy Faer Gyng Laura Fielding; Maer Chris Jones; Cyng Penny Andow; Cyng Leena Farhat (ar Zoom); Cyng Andrew Hinchliff (ar Zoom); Cyng Claire Hughes (ar Zoom); Cyng Gareth Jones; Cyng Nia Jones; Cyng Alun Rhys Jones; Cyng Elgan Owen; Cyng Preben Vangberg. Roedd Clerc y Dref, Jayne Neal yn bresennol a bu iddi baratoi'r cofnodion

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod

2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLIL 1972 Atodlen 12)

Cyng Pat Griffiths; Cyng Christine Roberts

3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Datgelu diddordeb personol neu ragfarnol)

Dirprwy Faer Laura Fielding	diddordeb personol	Eitem 13.5	diddordeb ddim yn peri rhagfarn
Cyng Nia Jones	diddordeb personol	Eitem 16.2 & 14	diddordeb ddim yn peri rhagfarn
Cyng Gareth Jones	diddordeb personol	Eitem 14	diddordeb ddim yn peri rhagfarn

4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.

Roedd y Cynghorydd Sir, Jacob Williams yn bresennol a bu iddo gyflwyno dau fater gerbron y Cyngor Tref:

1. Draeniau Ffordd Aber – pryderon bod y gorchuddion newydd yn ddiffygiol. CBSC wedi'u hysbysu ac fe gaiff y gwaith ei gwblhau yn y man.

2. Soniwyd bod baw cŵn yn broblem ar Ffordd yr Orsaf. Cytunwyd bod hyn yn digwydd ar ddyfodiad y diwrnodau tywyllach. Mae Cyngor Tref yn parhau i ddarparu bagiau baw cŵn mewn argyfwng ledled y dref, ond maen nhw'n mynd ar goll ar y ffordd hon yn aml. Soniwyd bod problemau'n codi mewn ardaloedd eraill hefyd megis y cob.

Awgrymwyd cyflwyno hysbysiad ar Facebook i atgoffa pobl am godi baw ci. Mae'n amlwg nad ydy CBSC am fynd i'r afael â'r mater hwn nac ychwaith am ddarparu arwyddion ychwanegol. Clerc i ofyn i Pen am eu harwyddion chwyth-baentio.

5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Hydref y 5^{ed} 2022 a'r rhestr weithredu (DLIL1972 Atodlen 12)

Roedd y cofnodion wedi'u dosbarthu a'u nodi wedi'u darllen.

Cynigwyd gan y Maer Chris Jones Eiliwyd gan y Cyng G Jones

Penderfynwyd derbyn a

nodi

Cyngor Tref Llanfairfechan Town Council Action List		
Date: 26th October 2022		
Item:	Date:	Progress
1 Insignia and past mayor badges	awaiting	email sent 18/10/2022
2 Nant y Pandy car park	03/10/2022	lease being drawn up
3 Promenade car park & flood protection	04/10/2022	no further information
4 Benches project	on agenda	Item 7
5 Cenotaph	emails sent	information being gathered
6 Victoria Gardens gates	email received	to discuss
7 Glan y Mor Elias & Morfa Madryn project	agenda	Item 11
8 MUGA West Shore	progressing	information being gathered
9 Petanque court	awaiting	Town Twinning grant application
10 Audit	completed	awaiting response no queries sent through
11 Office & GDPR IT	agenda	Item 12
12 Clerk's & Staff Training	Update	January start
13 Boat pond	completed	work has been completed to clear the algae
14 Kickstarter Community Plan	Update	to discuss
15 Halloween market and parties	update	to discuss
16 Fireworks event	on agenda	Item 8.1
17 Remembrance event	progressing	To discuss
18 Winter fayre and xmas lights	agenda	Item 9
19 Community Library	update	To discuss - meeting planned 21st November

Eitem 1 Insignia – Bathodynau'r Maer Blaenorol Gofynnwyd i'r Clerc am gaffael opsiynau rhatach ac fe dderbyniwyd yr wybodaeth ganlynol: Mae Mould yn codi £180.00 am Fedal Efydd 70mm wedi'i stampio sy'n 5mm o Drwch a heb ddolen

Cyfanswm - 100 £6.30 yr un. Byddai'r cyfanswm yn £810.00. Cytunwyd bod hyn yn dal yn ormod i'w ganiatáu ar adeg lle mae cyfyngiadau cyllidebol. Soniwyd y gallai'r meiri blaenorol rannu eu haddurndlysau os oes ei angen ar gyfer digwyddiadau dinesig. Cytunwyd yn unfrydol na ddylid prynu addurndlysau newydd.

Eitem 7 Giatiau Gerddi Fictoria Mae CBSC wedi cyflwyno'r amcan brisiau canlynol:

- Adnewyddu'r hen estyllen gydbwyso = £2000 – wedi gofyn am ddyfynbris gan Sam Lock
- Caffael a gosod 3 x estyllen gydbwyso newydd = £2000-£3000
- Y gost ar gyfer ffensio'r opsiwn 'coch' ydy £ 5,890.00 + taw
- Y gost ar gyfer yr opsiwn 'melyn' ydy £ 3,691.00 + taw

Mae'r Cyngor Tref yn cydnabod, yn sgil y broblem gyson gyda chŵn yn y cae chwarae, bydd angen gosod ffens. Maen nhw'n dal yn bryderus ynghylch y gost uchel a byddan nhw'n cysylltu gyda chontractwr lleol am ddyfynbris is. Mae'n bosibl bod opsiwn grant ar gael. Clerc i anfon y manylion at y cynghorydd i ystyried yr opsiwn hwn.

Eitem 7a Estyllen Gydbwyso yng Ngerddi Fictoria Mae contractwr lleol wedi bod i fwrw golwg ar yr estyllen gydbwyso a soniodd ei fod mewn cyflwr rhy ddrwg i'w atgyweirio. Clerc i gaffael rhagor o fanylion am ddewisiadau eraill a derbyn y manylebau llawn ar gyfer y gwaith ffensio arfaethedig.

Eitem 11 Pwll Padlo. Cyfarfod Clercod a CBSC i drafod 2023/24. Trosglwyddo ased – bu i'r clercod wrthod hyn fel yr unig opsiwn. Bydd CBSC y cysylltu eto gyda chost ddiwygiedig am gyfrannu tuag at y gwaith cynnal a chadw. Mae hyn yn £1800 ar hyn o bryd ond mae disgwyl y bydd yn cynyddu'n sylweddol fel cyfran o'r cyfraniad.

Eitem 9 MUGA – Clerc i fynd rhagddi gyda hyn cyn gynted â phosibl gan fod y preswylwyr yn awyddus i ddefnyddio'r cyfleuster. Rydym yn aros am ddyfynbris gan CBS Conwy ac fe fyddan nhw'n mynd ati i gwblhau'r gwaith.

Eitem 19 Llyfrgell Gymunedol Derbyniwyd ffigyrau gan CBS Conwy. Mae'n costio £14,337 i gyflogi staff y llyfrgell a £2000 ychwanegol i gynnal yr adeilad pob blwyddyn. Y Cyngor Tref i neilltuo £2000 yn eu cyllideb i gynnig cymorth tuag at gostau'r adeilad. Mae CBS Conwy yn gofyn am gyfraniad tuag at staffio. Cynigiodd y Clerc ychwanegu £3000 at yr archebiant ar gyfer y flwyddyn nesaf ond mae'n ymwybodol y gallai CBS Conwy ofyn am gyfraniad uwch. Byddai hyn yn arwain at gynydd pellach yng nghais archebiant y Cyngor Tref. Soniwyd y byddai'r Cyngor Tref yn disgwyl mwy o reolaeth dros y llyfrgell os ydy'r cyfraniad ganddyn nhw'n uwch. Mae yna gyfleoedd gwyb – mae gan Lanfairfechan ddau lyfrgellydd ardderchog sy'n awyddus i drawsnewid yr adeilad yn hwb cymunedol ac mae Swyddog Digwyddiadau ac Ymgysylltu Cymunedol y Cyngor Tref ar gael i weithio yn yr adeilad unwaith yr wythnos. Mae'n bryd bwrw iddi i feithrin partneriaeth gadarnhaol rhwng ymddiriedolwyr ac aelodau Cyfeillion Llyfrgell Llanfairfechan, y Cyngor Tref a CBS Conwy. Mae Cyfarfod Blyneddol wedi'i gyhoeddi ar gyfer dydd Llun, Tachwedd y

14^{eg} yn ogystal â chyfarfod rhanddeiliaid am 10yb ar ddydd Llun, Tachwedd yr 21^{ain}. Awgrymwyd ffurfio grŵp gorchwyl a gorffen i lywio'r drafodaeth dros y misoedd nesaf gydag amcanion eglur i ddiogelu dyfodol y llyfrgell. Mae sawl cynghorydd newydd sy'n fodlon helpu gyda'r broses ac mae'r rheiny sydd eisoes ar y pwyllgor ar gael i helpu hefyd. Awgrymwyd ei fod yn bwysig manteisio ar sgiliau proffesiynol y cynghorwyr i helpu. Clerc i atgoffa'r grŵp cyfeillion bod angen cyhoeddi manylion y Cyfarfod Blynnyddol 14 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod. Clerc i rannu'r poster Cyfarfod Blynnyddol unwaith y bydd wedi'i dderbyn. Penderfynwyd derbyn a nodi

6. Derbyn gwybodaeth a chwblhau'r arolwg gan y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol.

Cytunwyd y byddai'r Cynghorwyr yn adolygu'r arolwg ac yn ymateb yn unigol. Penderfynwyd derbyn a nodi

7. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer Prosiect Meinciau Cyhoeddus Llanfairfechan Mae'r archwiliad ynghylch y dref uchaf wedi'i gwblhau a dyma'r materion a adroddwyd:

1. Pryderon ynghylch goryrru ger Ffordd Llanerch ac i lawr yr allt. Clerc wedi e-bostio CBS Conwy ac wedi derbyn ymateb. Yr arwydd rhybuddio priodol ar gyfer y sefyllfa hon fyddai arwydd rhybudd Cae Chwarae. Dengys cofnodion CBSC bod arwydd o'r fath yn bodoli eisoes.
2. Croesffordd ger Llwybr Terrace a brig Ffordd Llanerch – Mainc mewn cyflwr gwael ond mae modd ei thrwsio'n rhwydd. Mae James wedi tocio'r isdyfiant o amgylch y fainc. Clerc wedi adrodd am ddiffygion.
3. Golygfan posibl ger Llwybr Terrace – Mae James wedi tocio'r isdyfiant. Bu awgrym fod hon yn olygfan newydd. Clerc i gysylltu gyda CBS Conwy i drafod y mater.
4. Mainc Dr Hutt – nid yw'n olygfan mwyach ond awgrymwyd y dylid ei thrawsnewid i fod yn ardal picnic gyda seddi a bin cyhoeddus.
5. Arwydd dim sbwriel Rhodfa Newry a man fainc ar frig Ffordd Dyffryn – Mae James wedi tocio'r ardal hon
6. Arwydd ardal Bywyd Gwyllt – Clerc i gysylltu gyda CBS Conwy i drafod gydag ecolegydd. Mae grantiau ar gael ar gyfer Gweirglodd Coroni. Clerc i ymchwilio i'r mater.
7. Ffordd y Dyffryn ger pont droed yr afon – mae'r fainc mewn cyflwr gwael dros ben ac mae angen gosod un newydd yno.
8. Cytunwyd i brynu meinciau metel gan y gof fel man cychwyn ar gyfer y prosiect.
 - 1 x Croesffordd i osod mainc newydd yn lle'r hen un blêr a lansiô'r prosiect
 - 1 x Ffordd Dyffryn ger pont droed yr afon
 - 1 x Ysgol Pant y Rhedyn

Yna mae angen gosod mainc newydd yn lle'r hen un ger croesffordd Llwybr Terrace.

Cynigwyd gan y Cyng G Jones Eiliwyd gan y Cyng N Jones

Penderfynwyd derbyn a nodi

8. Derbyn gwybodaeth a chwblhau'r cynlluniau terfynol ar gyfer Arddangosfa Tân Gwyllt Llanfairfechan

Mae'r arddangosfa Tân Gwyllt wedi'i drefnu ar gyfer nos Lun, Tachwedd y 7^{fed} am 6yh. Mae'r Caffis wedi'u hysbysu a bydd y Pafiliwn, Seagrass a'r Clwb Hwyllo ar agor. Bydd hefyd reidiau ffair bach ar gael i blant. Mae'r holl awdurdodau wedi'u hysbysu. Clerc i fwrw golwg ar ddeunyddiau ar gyfer y prosiect Bang Out of Order er mwyn cynghori ar faterion diogelwch.

Penderfynwyd derbyn a

nodi

Mae'r gwaith ar y Digwyddiad Coffa'n mynd rhagddi'n dda hefyd. Mae cais i gau'r ffordd wedi'i gyflwyno a bydd y Clerc yn cwrdd gyda'r adran rheoli traffig ddydd Mawrth nesaf. Mae'r holl gyfranwyr wedi cwrdd ac wedi cytuno ar eu dyletswyddau. Mae gwahoddiad wedi'i estyn i'r holl gynghorwyr a bydd y Maer a'r Dirprwy Faer yn cymryd rhan yn y gwasanaeth. Byddwn yn rhannu manylion pellach dros e-bost.

Penderfynwyd derbyn a nodi

9. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer goleuadau Nadolig yn Llanfairfechan

Mae'r gwaith yn mynd rhagddo a bydd CBS Conwy ar gael i osod y goleuadau presennol eleni ac maen nhw wrthi'n paratoi dyfynbris i'w gosod. Mae yna broblem gyda'r goleuadau ar gyfer Ffordd yr Orsaf – penderfynwyd hyrwyddo'r prosiect baneri a'r gystadleuaeth goleuadau Ffenestri Siopau ar gyfer y dathliadau Nadolig eleni. Bydd y goleuadau Nadolig yn ymestyn tua Ffordd Dyffryn at y groesffordd ac ar hyd Ffordd Penmaenmawr at Pen Dalar. Caiff y baneri eu gosod y tu allan i'r siopau, ar hyd Ffordd yr Orsaf yn bennaf gyda rhai y tu allan i siopau Ffordd Dyffryn. Clerc i drefnu rhoi'r goleuadau arnodd ar Ragfyr y 1af rhwng 8yb a 9yb a 3yp a 9yh. Bu i'r Clerc ddiolch yn ffurfiol i Kirsty am ei gwaith i drefnu gwirio'r cyfarpar a'r holl dîm staff a'r cynghorwyr am eu cymorth gyda'r paratodau ar gyfer goleuadau Nadolig 2022.

Penderfynwyd derbyn a nodi

10. Derbyn gwybodaeth a thrafod y gofrestrfa tir yn Llanfairfechan – Cyng Andrew Hinchliff

Bu i'r Cyng leisio pryderon ynghylch y clytiau o dir yn Llanfairfechan lle na wyddai neb pwy sy'n berchen arnyn nhw a gofynnwyd i gynrychiolwyr o'r Cyngor Tref i gyfarfod gyda CBS Conwy i drafod y mater. Bu trafodaeth a nodwyd nad

ydy hyn yn flaenoriaeth ar hyn o bryd a gallai unigolion ymchwilio perchnogaeth tir drwy Gofrestrfa Tir EM. Bu i'r cynghorwyr fwrw pleidlais ac fe gytunwyd na ddylai'r Cyngor Tref drefnu cyfarfod ar hyn o bryd gan ein bod yn cydnabod bod staff CBS Conwy o dan bwysau sylweddol yn sgil trafferthion cyllidebol.

Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliffe Eiliwyd gan y Cyng E Jones Penderfynwyd derbyn a nodi

11. Derbyn adroddiad terfynol am y prosiect Morfa Madryn sydd wedi'i ariannu gan Dŵr Anafon

Mae'r holl waith wedi'i gwblhau fel a ganlyn:

- Mae'r llochesau presennol yn fwy diogel rhag tywydd garw ac yn fwy croesawgar ar gyfer ymwelwyr. Fel rhan o'r gwaith fe adeiladwyd dau do newydd, cafodd y silffoedd eu hadnewyddu a'r meinciau eu hail-wampio. Cafodd llwybr y lloches ei docio ar Fedi'r 22ain gan grŵp o saith gwirfoddolwr i sicrhau bod yr ardal yn addas i bawb.
- Cafodd un digwyddiad gwylio adar ei gynnal ar Fedi'r 25ain ac roedd saith preswylydd yn bresennol, gan gynnwys arweinwyr. Mae dau sesiwn pellach wedi'u trefnu ar gyfer gaeaf / gwanwyn 2022/23.
- Mae'r ardal yn barod i aelodau grwpiau amgylcheddol, teuluoedd o Lanfairfechan ac Aber ac ymwelwyr i'r ardal i'w ddefnyddio'n rheolaidd.

Hoffai Cyngor Tref Llanfairfechan ddiolch i'r holl wirfoddolwyr, Kate a Geoff Gibbs, Cyng Alun Rhys Jones, Paul Haswell-Davies a Dŵr Anafon am eu help i gwblhau'r prosiect hwn. Clerc i anfon yr adroddiad at Dŵr Anafon a gofyn iddyn nhw am ad-dalu £2094 i'r Cyngor Tref am waith maen nhw wedi'i gwblhau. Clerc i roi gwybod i Gyngor Gwynedd am dipio anghyfreithlon yn y maes parcio ger Morfa Madryn. Penderfynwyd derbyn a nodi

12. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo'r broses ar gyfer y ffôn ffibr a'r band eang

Mae'r Neuadd Gymunedol yn gyfrifol am y cytundeb Ffôn a Band Eang erbyn hyn. Mae yna arian yn weddill yn y gyllideb i dalu am ffônau a TG felly fe ofynnodd y Clerc os byddai'r Cyngor Tref yn fodlon talu hanner tuag at y bil. Bu i'r cynghorwyr fwrw pleidlais ac fe gytunodd pawb i rannu'r gost gyda'r Cyngor Tref yn cyfrannu £50 y mis tuag at y bil ffôn. Ni wnaeth Aelodau Cymunedol y Neuadd Gymunedol bleidleisio. Yn ystod y drafodaeth, soniwyd bod y Neuadd Gymunedol yn wynebu cynnydd sylweddol mewn costau tanwydd o Dachwedd 2022. Mae'r costau tanwydd yn £5000 ar hyn o bryd ac mae disgwyl iddyn nhw gynyddu i £20000 erbyn Ebrill 2023. Mae'r Pwyllgor wrthi'n llunio cynlluniau i liniaru'r effaith gan sicrhau bod dal modd i grwpiau cymunedol logi'r neuadd am bris teg.

Cynigwyd gan y Cyng E Owen Eiliwyd gan y Dirprwy Faer Laura Fielding Penderfynwyd derbyn a nodi

13. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer Hydref 2022

Taliadau i'w cyflwyno
1. Baneri ar gyfer digwyddiad cymunedol Cyfrif Busnes Amazon £19.99
2. British Gas Awst / Hydref £72.98
3. Cyfieithiadau Menter Iaith £245.59
4. Pamffledi Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru £20.00
5. Grant Pwyllgor Digwyddiadau Llanfairfechan (wedi'i ddiwygio) £2115.00 gan gynnwys cyllid PACT
6. Taliadau Wardiau Etholiadau CBSC - £405.00

Cynigwyd gan y Cyng C Jones Eiliwyd gan y Cyng N Jones Penderfynwyd derbyn a nodi

14. Trafod materion cynllunio

0/50098 23 Parc Henblas Llanfairfechan Conwy LL33 0RW Lleihau 1 coeden leim – dilyn cyngor y swyddog coed.
0/50095 Tŷ Sefton 5 Caradog Place Llanfairfechan LL33 0DA Newid defnydd y cartref gofal preswyl gynt (C2) i fod yn dŷ annedd sengl (3) – Ni chodwyd unrhyw arsylwadau

0/50096 Y Benarth Park Crescent Llanfairfechan Conwy LL33 0AU Fe adawodd y Cyng G Jones yr ystafell ar gyfer yr eitem hon. Newid defnydd o fod yn C3 preswyl i C2 cartref gofal. Yn dilyn trafodaeth faith a chan ystyried gwrthwynebiad y preswylydd ynghlwm â'r mater hwn, fe godwyd yr ymholiadau canlynol:

- Mae diffyg manylion yn y cais ac nid oes digon o wybodaeth i ddarbwylo'r rhanddeiliaid y byddai'r prosiect wedi'i reoli'n effeithiol.
- Mae'r Cyngor Tref wedi clywed pryderon y preswylwyr ac maen nhw'n gofyn i'r swyddogion cynllunio fynd i'r afael gyda'r rhain a chynnig sicrwydd yn eu cylch.

3. Soniodd y Cyngor Tref fod hon yn ardal breswyl gymharol fach gyda nifer o breswylwyr hŷn, problemau gyda pharcio a phryderon am eiddo sydd wedi'u hesgeuluso. Ydy'r ardal yn le addas ar gyfer prosiect sylweddol o'r fath?

Penderfynwyd derbyn a nodi

15. Derbyn gohebiaeth

Pryderon preswilydd ynghylch mater cynllunio 0/50096 trafodwyd hyn ynghlwm ag eitem 14

16. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd

1. Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llanfairfechan – Mae'r Clerc wedi llunio archebiant drafft a soniwyd mae'n debygol y bydd cyllideb y Cyngor Tref mewn diffyg yn 2023 a bydd gofyn iddyn nhw ddefnyddio arian wrth gefn i gynnal eu lefel gwasanaeth. Fe gaiff y cynnydd o 11+% yn y Cyflog Byw Gwirioneddol sgil-ffaith ar gyflogau staff eraill ac mae disgwyl y bydd CBS Conwy yn cyflwyno ceisiadau ychwanegol am gymorth tuag at wasanaethau. Os cytunir ar Gyflog Byw Gwirioneddol, fe ddylen ni ymgeisio am achrediad. Nodwyd, gan ein bod wedi rheoli ein cyllid yn ddarbodus mae gennym ni gyllid wrth gefn i liniaru'r pwysau hyn. Fodd bynnag, bydd yn rhaid cynyddu'r archebiant er mwyn sicrhau cyllideb gadarn. Bydd cyfarfod cyllid pellach cyn cyfarfod nesaf y Cyngor Tref. Bydd y cais archebiant drafft yn cael ei drafod yn y cyfarfod Cyngor Tref ar ddydd Mercher, Tachwedd yr 16^{eg}.
2. Pwyllgor Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan– Cyng Andrew Hinchliffe a'r Cyng Chris Jones. Fel y soniwyd eisoes, bydd y pwyllgor yn wynebu heriau sylweddol ar drothwy 2023 ond mae'n falch gennym ni gyhoeddi ein bod ni wedi derbyn nifer o geisiadau i logi'r neuadd ac mae gan y grŵp gyllid wrth gefn iach i'w defnyddio os aiff pethau'n drech. Y pryder ydy y bydd yr incwm yn dioddef yn sgil y costau tanwydd felly ni fydd modd dibynnu ar y cyllid wrth gefn i ddatrys y broblem a bydd yn broblem barhaus. Dydy costau'r ystafelloedd heb eu cynyddu ers bron i ddeng mlynedd ac felly fe gytunwyd yn anffoddol i godi cyfraddau'r ystafelloedd yn y flwyddyn newydd. Bydd y pwyllgor yn cyflwyno gostyngiad grwpiau cymunedol ar gyfer Grwpiau Cymunedol Llanfairfechan er mwyn lliniaru'r penderfyniad hwn. Mae'r neuadd yn brysur dros ben ac o'r herwydd mae pryderon ynghylch staffio. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y byddan nhw'n cynnig staffio unwaith eto ar ddydd Gwener a Sadwrn ac fe fyddan nhw'n ymchwilio ateb mwy parhaol yn y tymor hirach. Bydd y neuadd yn rhan o brosiect Gigs y Gaeaf gan CBS Conwy gyda band teyrnged i Fleetwood Mac wedi'i drefnu ar gyfer dydd Gwener, Rhagfyr yr 2^{il}. Soniwyd bod y marchnadoedd yn llwyddiant ysgubol erbyn hyn – roedd y farchnad Calan Gaeaf yn ddigwyddiad gwerth chweil ac fe dderbyniwyd adborth cadarnhaol dros ben gan sawl un. Estynnwyd llongyfarchiadau i Kirsty am ei lefel o broffesiynoldeb wrth ddatblygu'r prosiect. Nodwyd y bydd gofyn i'r stondinwyr dalu £10 fesul stondin o fis Rhagfyr ymlaen ac fe awgrymwyd y dylid defnyddio'r arian tuag at gostau'r neuadd. Cytunwyd ar hyn mewn egwyddor – bydd y Clerc yn rhannu gwybodaeth bellach am hyn cyn bwrw pleidlais ffurfiol.
3. Gofynnodd y Cyng Andrew Hinchliffe i'r Cynghorwyr Sir oes cyfarfodydd Cynllun Datblygu Lleol wedi'u cynnal ac am unrhyw gynnydd ynghylch yr ysgol newydd ger y tai newydd yng Nghae Ffynnon. Soniwyd bod y broses wedi'i ohirio am y tro, i ddechrau oherwydd Covid ond erbyn hyn oherwydd y cyfyngiadau cyllidebol sylweddol yng Nghonwy. Mae pob prosiect yn cael ei adolygu ac mae hyn wedi arwain at oedi gyda'r datblygiadau. Bydd y Cynghorwyr Sir yn adrodd am y mater unwaith y byddan nhw'n derbyn mwy o wybodaeth.
4. Cyfarfod pwyllgor Gefeillio Trefi – Preben Vangberg. Bydd yr ymweliad Gefeillio Trefi ym mis Mai. Bydd yr ymwelwyr yn cyrraedd ar yr 17^{eg} ac yn gadael ar Fai'r 19^{eg}. Caiff ceisiadau am y grant Cyngor Tref eu hanfon maes o law.
5. Cyfarfod Pwyllgor Digwyddiadau Cymunedol Llanfairfechan – Cynghorydd Laura Fielding – Mae'r digwyddiadau canlynol ar y gweill:
 - Parti Calan Gaeaf 0 -10 oed o 4yp tan 6yh ar ddydd Llun, Hydref yr 31^{ain} yn Neuadd Gymunedol y Dref
 - Parti Calan Gaeaf 11 – 16 oed 6:30yh tan 8:30yh ar ddydd Llun, Hydref yr 31^{ain} yn Neuadd Gymunedol y Dref
 - Cystadleuaeth Llwybr Calan Gaeaf, mae'n rhaid cyflwyno'r cynigion ar-lein erbyn 4yp ar Hydref y 30^{ain}
 - Digwyddiad Stondinau Gwerthu Nwyddau o 12 – 4yp ar Hydref y 29ain yn Split Willow

Penderfynwyd derbyn a nodi pob un

17. Derbyn pryderon a chanmoliaethau brys

1. Mae pwyllgor Neuadd Pendalar ar fin ffurfio ac mae'n debyg y bydd yn ail-agor yn fuan

2. Mae rheoli traffig ar waith yn Ffordd yr Orsaf – ni fydd y ffordd ar gau o Hydref yr 31^{ain} ond bydd y traffig wedi'i reoli
3. Sawl problem gyda charthffosiaeth yn rhan uchaf y dref. Bydd y Cynghorydd yn adrodd am hyn.
4. Codwyd pryder am hysbysiad cyfryngau cymdeithasol wnaeth awgrymu bod CBS Conwy yn esgeuloso Llanfairfechan. Nodwyd nad ydy hyn yn wir. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae sawl prosiect ar y cyd wedi'i gyflawni ac mae'n bwysig sicrhau na chaiff y cydweithio hwn ei danseilio. Fel ymateb i hyn, cafodd ei bwysleisio nad oedd yr hysbysiad yn ceisio tanbriso'r perthnasau gwaith da ond yn hytrach yn sgil pryder gwirioneddol am y toriadau yng nghyllideb CBSC sy'n cael eu trafod gan ddwyn i ystyriaeth y llyfrgell gymunedol. Does dim sicrwydd wedi'i gynnig ynghylch dyfodol y gwasanaethau. Awgrymwyd nad oes modd i unrhyw un gynnig sicrwydd hyd yn hyn gan fod y trafodaethau ynghylch reoliadau cyllideb CBS Conwy yn dal yn parhau. Mae'n gyfnod o galedi gwirioneddol ac mae swyddogion o dan bwysau aruthrol mewn amgylchiadau anodd dros ben. Rydym o'r farn bod angen i bawb gydweithio fel tîm i oroesi'r cyfnod a datblygu'r sgiliau newydd ymhlith aelodau'r Cyngor Tref a meithrin y perthnasau gwaith da gan edrych tua'r dyfodol. Penderfynwyd derbyn a nodi pob un

Daeth y cyfarfod i ben am 9:30yh

Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Dydd Mercher, Tachwedd yr 16eg 2022